MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

BLAS BRAF NEWYDD I'R WYL FWYD

Wrth i brif ddigwyddiad coginio Casnewydd ddathlu ei chweched flwyddyn, mae blas newydd cyffrous ar y fwydlen yn dilyn cyhoeddi y bydd Tiny Rebel, sef bragdy llwyddiannus Casnewydd, yn brif noddwr.

Cynhelir Gwŷl Fwyd a Diod Tiny Rebel Casnewydd ddydd Sadwrn 1 Hydref ac mae'n argoeli mai hi yr wŷl fwyaf a'r wŷl orau hyd yn hyn, gyda thua 80 o stondinau, cystadleuaeth boblogaidd Teenchef eto ac arddangosiadau gan gogyddion arbenigol.

Bydd hefyd rhai digwyddiadau cyffrous newydd, diolch i Tiny Rebel.

Dywedodd Bradley Cummings, cyd-sefydlydd a chyfarwyddwr Tiny Rebel: *"Rydym yn fusnes balch o Gasnewydd, felly mae cymryd rhan fel prif noddwr yr wŷl yn anrhydedd enfawr."*

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd: *"Mae'n wych bod cwmni mor llwyddiannus o Gasnewydd wedi ymuno â ni i gefnogi'r digwyddiad mawr hwn yng Nghasnewydd - rydym yn edrych ymlaen ar weithio gyda nhw dros y tair blynedd nesaf."*

Gweler rhifyn nesaf o Materion Casnewydd, dilynwch ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ewch i **www.newportfoodfestival.co.uk** i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr wŷl a'r digwyddiadau..

Llun: Bradley Cummings a Gareth Williams o Tiny Rebel.

Y NIFER FWYAF O GARTREFI ERIOED WEDI'U HADEILADU YNG NGHASNEWYDD

Datblygiad Loftus Gardens

Adeiladwyd dros 900 o gartrefi newydd yng Nghasnewydd yn 2015/16 - y cyflenwad mwyaf o gartrefi mewn mwy na 25 mlynedd.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

"Mae hwn yn arwydd o hyder mewn dinas ffyniannus. Mae gan Gasnewydd gymaint i'w gynnig ac mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma i gyd yn cyfrannu at economi fywiog.

"Mae amrywiaeth eang o gartrefi yn cael eu hadeiladu, o eiddo cychwynnol i gartrefi teulu mwy. Mae nifer o'r safleoedd hyn yn cynnwys tai fforddiadwy er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl sy'n awyddus i fyw yng Nghasnewydd i ddringo ar yr ysgol eiddo a bod yn berchen ar gartref eu hunain."

Dywedodd y Cynghorydd John Richards, yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Buddsoddi:

"Mae nifer o ddatblygiadau tai sylweddol wedi cyfrannu at y nifer hwn, ac maent yn dal i fod yn adeiladu ar y safleoedd hynny.

"Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u lleoli ar hen safleoedd tir llwyd a disgwylir iddynt fod yn gymunedau'r unfed ganrif ar hugain gan gynnwys cyfleusterau hamdden ac addysg. Fel pob dinas a thref fawr, mae'n rhaid i Gasnewydd barhau i dyfu a datblygu."

Ymhlith y datblygiadau tai mawr mae Loftus Village sydd ar hen safle Pirelli oddi ar Corporation Road; City Vizion sydd ar lan yr afon ger canol y ddinas; Lysaght's Village yn Llysweri; Foxgloves Meadows yn y Betws; Jubilee Park ar hen safle Alcan yn y Tŷ-du a Glan Llyn yn Llanwern.

Mae gwaith adfywio mawr wedi bod yn mynd rhagddo yng Nghasnewydd am fwy na degawd ac wedi cynnwys y gwaith o drawsnewid hen safle tir llwyd segur yn Nociau'r Hen Dref.

Mae cynllun datblygu lleol Casnewydd yn nodi'r angen am fwy na 10,000 o gartrefi newydd rhwng 2011 a 2026.

Bydd y cynlluniau mawr hyn yn helpu'r ddinas i gyrraedd ei tharged.

Dywedodd y Cynghorydd Richards:

"Cyflawnwyd llawer dros y blynyddoedd diwethaf drwy'r cyngor yn cydweithio â phartneriaid gwahanol, ond gellir gwneud mwy.

"Rydym yn ymrwymedig i barhau â'r gwaith da hwn er budd pawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd."

MAE POPETH WEDI NEWID AR FRIG Y CYNGOR

Maer a Maeres Casnewydd

Newidiodd popeth y mis Mai hwn yng Nghyngor Dinas Casnewydd, wrth i Faer, Arweinydd ac aelodau'r Cabinet newydd gael eu cyhoeddi.

Daeth y Cynghorydd David Atwell yn 384fed Maer ar Gasnewydd mewn seremoni swyddogol yn y Ganolfan Ddinesig.

Caiff ei gynorthwyo gan ei wraig Carole fel Maeres yn ystod ei flwyddyn mewn swydd, ac maent wedi dewis Tŷ Hafan, SSAFA elusen y lluoedd arfog a Pets as Therapy fel eu helusennau ar gyfer y flwyddyn.

Dywedodd:
"Mae'n fraint fawr i wasanaethu fy ninas enedigol fel Maer ac edrychaf ymlaen at gyfarfod â llawer mwy o drigolion a helpu i godi arian at achosion da iawn yn ystod y 12 mis nesaf."

Y Cynghorydd David Fouweather a'i wraig Paula fydd y Dirprwy Faer a Maeres.

Penodwyd y Cynghorydd Debbie Wilcox fel Arweinydd y Cyngor ar ôl i'r Cynghorydd Bob Bright ymddiswyddo.

Ymunodd y Cynghorydd Wilcox â'r cyngor yn 2004 ac mae'n cynrychioli ward Gaer. Mae ei rolau blaenorol wedi cynnwys Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant ac Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc.

Bu hefyd yn Gadeirydd grŵp Llafur y Cyngor. Hi yw arweinydd benywaidd cyntaf Cyngor Dinas Casnewydd.

Dywedodd y Cynghorydd Wilcox y canlynol am ei phenodiad:

"Mae'n fraint cymryd awenau arweinyddiaeth Cyngor Dinas Casnewydd. Mae hon yn ddinas â hanes balch ond dyfodol hyd yn oed yn fwy disglair. Mae gorffennol Casnewydd yn bwysig i mi ac rwy'n cydnabod ein hanes, ond rwy'n benderfynol o ganolbwyntio ar ddyfodol Casnewydd.

"Dros y 12 mis nesaf, byddwch yn gweld fy mod yn falch iawn o Gasnewydd a'i phobl. Nid Caerdydd arall ydym ni - mae ein huchelgais gymaint yn fwy na hynny. Rwy'n ymrwymedig i wneud popeth y gallwn i wneud Casnewydd y lle orau posibl."

Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, cyhoeddwyd Cabinet newydd hefyd yn dilyn adolygiad o bortffolios. Dywedodd y Cynghorydd Wilcox y canlynol am y rolau newydd:
"Mae'n hynod bwysig i mi ein bod yn manteisio i'r eithaf ar wybodaeth ein cynghorwyr mwyaf profiadol, ond ein bod hefyd yn croesawu talent newydd."

Mae'r Cabinet yn cynnwys y canlynol: Ray Truman, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thrafnidiaeth; Gail Giles, Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc; John Richards, Aelod Cabinet dros Adfywio a Buddsoddi; Bob Poole, Aelod Cabinet dros Swyddogaethau Rheoleiddiol; Mark Whitcutt, Aelod Cabinet dros Gyllid ac Adnoddau; Paul Cockeram, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol; Roger Jeavons, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwaith a Sgiliau; Debbie Harvey, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Chwaraeon, a Rheolwr Busnes.

Ceir manylion llawn o bob portffolio yn **www.newport.gov.uk**

Cynghorydd Debbie Wilcox

NetworkRail

Our works continue to prepare Newport for a new fleet of greener, faster electric trains.

Over the last couple of months we have been working hard make the necessary changes to Newport Station and Bridge Street Road Bridge.

We will continue to work hard throughout 2016 and keep our disruption to a minimum.

Mae ein gwaith yn parhau i baratoi Casnewydd ar gyfer fflyd newydd o drenau trydan gwyrddach, cyflymach.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wneud y newidiadau angenrheidiol i Orsaf Casnewydd a Phont Bridge Street Road.

Byddwn yn parhau i weithio'n galed trwy gydol 2016 ac yn ceisio achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl.

For more information, please contact:
I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

electrification

@NetworkrailWAL CRWales@networkrail.co.uk 03457 11 41 41

Working for you
Gweithio ar eich cyfer chi.

CYFLWYNO CYFLEOEDD HYFFORDDI

Mae caffi cymdeithasol dros dro yn Ystafelloedd Te Parc Belle Vue bob dydd Llun, diolch i bartneriaeth rhwng y cyngor a'r cwmni sy'n rhedeg y caffi.

Y llynedd, enillodd perchnogion Parc Pantry, ym Malpas, y contract i redeg caffi'r parc, gan gynnwys ymrwymiad i gynnwys elfen o fenter gymdeithasol.

Mae'r Ystafelloedd Te yn cynnal prosiect, a rhedir gan Academi Dysgu Seiliedig ar Waith y cyngor, i oedolion sydd ag anableddau dysgu a chyflyrau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Bob dydd Llun, mae'r prosiect Positive Engagement Pathways yn sefydlu Chickles & Putney dros dro, lle bydd yr hyfforddeion, o dan oruchwyliaeth, yn paratoi ac yn gweini'r bwyd a'r ddiod.

Sefydlwyd y fenter gan y caffi sy'n cael ei rhedeg gan Fenter Gymdeithasol Malpas Court. Mae'r hyfforddeion yn dysgu sgiliau sylfaenol cyn symud ymlaen i Chickles and Putney i feithrin eu crefft.

CYMORTH ARIANNOL YN Y FARCHNAD

Mae Undeb Credyd Casnewydd wedi agor ei bencadlys newydd ym Marchnad Casnewydd.

Mae'r cwmni cydweithredol ariannol cymunedol yn darparu gwasanaethau ariannol syml a fforddiadwy. Yn wahanol i'ch benthyciwr cyffredin ar y stryd fawr, mae undeb credyd yno i wasanaethu ei aelodau a'i gymuned yn unig. Anogir yr aelodau i gynilo ar gyfer eu dyfodol, ac yn gyfnewid am hynny, cânt gredyd fforddiadwy, yswiriant am ddim ar fenthyciadau, cyngor ariannol a, lle y bo'n bosibl, enillion da ar eu harian..

Am ragor o wybodaeth, galwch heibio'r farchnad, ewch i **newportcreditunion.co.uk** anfonwch e-bost i **info@newportcreditunion.co.uk** neu ffoniwch 01633 214913.

AROLWG CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Gwahoddir trigolion Casnewydd i gymryd rhan mewn arolwg sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd wedi'i hanelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a Chasnewydd.

Nod y cwestiynau canlynol yw helpu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un i nodi'r pethau sydd bwysicaf i bobl leol nawr ac yn y dyfodol.

Defnyddiwch un o'r ymatebion canlynol ar gyfer cwestiynau 1 a 2:
Ydych chi'n:
Cytuno'n gryf/Cytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/Anghytuno'n gryf

1. Mae Casnewydd yn lle da i fyw ynddo
2. Mae Casnewydd ar ei ffordd i fod yn lle gwell i fyw ynddo
3. Pa bethau rydych chi'n eu hoffi fwyaf am fyw yng Nghasnewydd? (hyd at dri pheth)
4. Beth yn eich barn chi sydd angen i'ch cymuned weld mwy/llai ohono yn yr 20 mlynedd nesaf?

Gallwch gwblhau'r cwestiynau uchod a'u dychwelyd i: Rhadbost SWC1476, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR neu gallwch eu cwblhau ar-lein yn **newport.gov.uk/haveyoursay**

Os hoffech gael copi papur, ffoniwch **01633 656656** neu anfonwch e-bost i **one.newport@newport.gov.uk**

DIGWYDDIADAU HWYLIOG YR HAF

Parc Belle Vue

Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau gwych ledled Casnewydd yr haf hwn/ Dyma ragflas i chi - i gael gwybod am fwy o ddigwyddiadau, ewch i www.newport.gov.uk i weld ein canllaw digwyddiadau.

Teithiau Cerdded Casnewydd 2016
Caiff digwyddiad cerdded blynyddol newydd '**Teithiau Cerdded Casnewydd'** ei lansio'r haf hwn - Her Nenlinell Casnewydd.

Bydd yn cynnig teithiau cerdded ar gyfer pob lefel ffitrwydd a gallu drwy gefn gwlad amrywiol Casnewydd gyda phob llwybr yn eich tywys drwy ardaloedd trawiadol.

Cynhelir y digwyddiad **ddydd Sadwrn 3 Medi,** a gallwch ddewis hyd eich taith gerdded o 1.5, 3, 4.5, 9 neu 16 milltir neu gallwch ddewis teithiau cerdded hunan-dywys.

Gallwch drefnu lle ar-lein nawr - y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw 19 Awst. Gallwch droi i fyny ar y diwrnod ar gyfer y teithiau cerdded llai o hyd.

Ewch i **www.newport.gov.uk/walktheport**

Digwyddiadau yn y parc
Mae gan Gasnewydd barciau prydferth sydd, yn ogystal â chynnig y lleoliad perffaith ar gyfer taith gerdded yn yr haf neu bicnic, hefyd yn cynnal rhai digwyddiadau gwych.

Ddydd Sadwrn 23 Gorffennaf, rhwng 11am a 4pm, bydd Parc Belle Vue yn cynnal yr ail Barti yn y Parc blynyddol. Dewch i gael bwyd, gweld y crefftau, yr adloniant a chlywed cerddoriaeth, i godi arian i Ofal Hosbis St David's.

Darllen Mawr Direidus
Mae llyfrgelloedd Casnewydd yn dathlu canmlwyddiant hoff storïwr y byd, Roald Dahl, eleni yn her ddarllen yr haf.

Yn agored i blant rhwng pedair a 12 oed, yrr her yw darllen chwe llyfr o'r llyfrgell yn ystod gwyliau'r haf - cofrestrwch nawr yn eich llyfrgell leol a chewch ffolder casglu am ddim i gadw eich cardiau casglu Quentin Blake arbennig ynddo (mae rhai ohonynt yn rhai crafu ac arogli!)

Cynhelir gweithgareddau dros yr haf mewn llyfrgelloedd hefyd, gan gynnwys ysgrifennu a darlunio eich llyfr eich hun, creu crocodeil anferth ac adeiladu CMM (Cawr Mawr Mwyn).

Ewch i **www.newport.gov.uk/bigfriendlyread**

Y Sblash Mawr
Mae gŵyl theatr stryd Casnewydd **Y Sblash Mawr** yn dychwelyd **ddydd Sadwrn 16 a ddydd Sul 17 Gorffennaf** ac mae trefnwyr Casnewydd Fyw wrthi'n cyhoeddi perfformiadau rhagorol o theatr stryd am ddim a gweithgareddau i'r teulu ar gyfer y penwythnos.

Cynhelir y perfformiadau yng Nglan yr Afon, gan ddilyn yr afon i lawr i gampws canol y ddinas Prifysgol De Cymru, yn Friars Walk ac ar Commercial Street.

Cynhelir amrywiaeth eang o weithdai a gweithgareddau am ddim drwy gydol y ddau ddiwrnod hefyd.

Ewch i **www.bigsplashnewport.com**

ATHRAWON YN SEICLO DROS ELUSEN

Bydd pennaeth Ysgol Uwchradd Duffryn, Jon Wilson, a chwe chydweithiwr yn seiclo o Lundain i Baris yr haf hwn i godi arian i'r Teenage Cancer Trust.

Cafodd Mr Wilson ddiagnosis o lymphoma ei hun naw mlynedd yn ôl, a chytunodd y tîm yn unfrydol i ddewis yr elusen, yn enwedig am eu bod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau.

www.justgiving.co.uk/jonridestoparis



TÎM YN ADEILADU AR LWYDDIANT

Mae tîm rheoli adeiladu Cyngor Dinas Casnewydd yn creu argraff ar y diwydiant adeiladu.

Derbyniodd y staff y wobr am y datblygiad mawr gorau ar gyfer Friars Walk yn Seremoni Wobrwyo Rheoli Adeiladu Lleol De Cymru ym Mro Morgannwg yn ddiweddar. Cawsant hefyd ganmoliaeth fawr am ddatblygiad Glan Llyn.

Dros y blynyddoedd, mae'r adran hefyd wedi ennill gwaith gan Taylor Wimpey yn Alcan, City Vizion, Cineworld a Chanolfan Gynedledda Celtic Manor.

Llun: Martin Hughes, rheolwr rheoli adeiladu yn derbyn y wobr.

ADEILADU YSGOL UWCHRADD CYFRWNG CYMRAEG YN Y DDINAS

Argraff artist o ysgolion newydd

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cymeradwyo cynlluniau yn ddiweddar i adeiladu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd yn y ddinas.

Mae'r cynnig a gymeradwywyd yn cynnwys codi estyniad i safle Ysgol Uwchradd Dyffryn, gyda'r ysgol newydd, sef Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, yn cael ei hadeiladau a'i thir ei hun. Bydd y ddwy ysgol yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd.

Tra y bydd y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo, bwriedir i ddisgyblion yr ysgol newydd gael eu cartrefu dros dro yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon ym Mrynglas, un o dair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Casnewydd.

Bydd y datblygiad yn darparu hyd at 900 o leoedd ysgol yn y blynyddoedd i ddod, a bydd yn bodloni'r galw cynyddol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth.

Caiff yr ysgol newydd ei hariannu gan raglen ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif drwy gydfenter rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Fynwy, gan ddarparu lleoedd ysgol uwchradd ar gyfer y ddau awdurdod lleol.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd: "Yn dilyn proses fanwl a thrylwyr, mae'n bleser mawr gennyf ddweud y byddwn nawr yn gallu cynnig addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y ddinas. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi gweithio ar hyn.

"Mae'r gymeradwyaeth hon heddiw hefyd yn golygu y caiff gwaith i wella Ysgol Uwchradd Dyffryn ei gwblhau, a fydd yn creu gwell amgylchedd i'r disgyblion yno gael eu haddysg."

Dywedodd y Cynghorydd Gail Giles, yr Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc:

"Rwy'n falch iawn ein bod nawr yn gallu mynd ati i adeiladu ysgol bwrpasol newydd a fydd yn cynnig y cyfleusterau gorau posibl i'r disgyblion. Bydd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn ased gwych i'r ddinas."

CYNGOR DINAS CASNEWYDD DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000 – COD YMDDYGIAD AELODAU HYSBYSIAD YN UNOL AG ADRAN 51(6) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

HYSBYSIR DRWY HYN bod Cyngor Dinas Casnewydd ("y Cyngor") wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad Aelodau diwygiedig a fydd yn weithredol o'r 17eg Mai 2016 yn unol ag adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Mae copïau o God Ymddygiad y Cyngor ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd heb godi tâl ar ddydd

Llun i ddydd Gwener
(ac eithrio gwyliau banc)
rhwng 9.00am a 4.00pm yn y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.

Mae cod ymddygiad y Cyngor hefyd ar gael ar wefan y Cyngor **www.newport.gov.uk**

Dyddiedig: 25 Mai 2016
G D PRICE
Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Newport City Council
Cyngor Dinas Casnewydd

MYND I'R AFAEL AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy rannu gwybodaeth yn nodi troseddwyr cyson drwy bartneriaeth Casnewydd yn Un.

Yn 2014 daeth proses sbardun cymunedol newydd i rym, gan alluogi adolygiadau o achosion os teimlwyd nad oedd yr awdurdodau wedi gwneud digon i helpu unigolion neu grwpiau.

Yn ystod 2015/16, cynhaliwyd adolygiad o'r fath a chanfuwyd bod yr awdurdod ymchwilio wediymddwyn yn deg ac yn rhesymol ond y dylid egluro rhai materion cyfreithiol ar ran y ddau barti.

Ewch i **www.newport.gov.uk** o dan yr adran ymddygiad gwrthgymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth.

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

CANSLO CASNEWYDD YN EI BLODAU

O ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl, mae cystadleuaeth Casnewydd yn ei Blodau eleni wedi'i chanslo gan y pwyllgor.

Gobeithio y cynhelir y gystadleuaeth eto yn 2017.

GRANTIAU TIRLENWI

Gallai grwpiau cymunedol sydd am roi eu prosiectau sydd â nod o wella eu hamgylchedd ar waith, gael gafael ar gymorth ariannol drwy gronfa gymunedol tirlenwi'r cyngor.

Caiff y cynllun ei reoli gan sefydliad o'r enw Entrust, gan ddefnyddio rhan o'r incwm a gynhyrchir gan dreth tirlenwi.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gweithgareddau fodloni un o'r pum amcan sydd i'w gweld ar wefan **www.entrust.org.uk landfill-community-fund**

Ar ôl i'r prosiectau gael eu cymeradwyo gan Entrust, gall y cyngor ryddhau'r arian.

CRISTNOGION YN ERBYN TLODI

Mae'r gwasanaeth gwnsela dyled am ddim, Cristnogion yn Erbyn Tlodi, yn elusen genedlaethol sy'n gweithio mewn partneriaeth ag eglwysi lleol ac mae bellach yn gweithredu yng Nghasnewydd.

Nod Cristnogion yn Erbyn Tlodi yw helpu pobl ar incwm isel ac sydd dan anfantais yn ariannol ac yn gymdeithasol i ddod allan o ddyled a bydd yn helpu unrhyw un waeth beth fo'i gredoau crefyddol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **capdebthelp.org**, anfonwch e-bost at **info@capuk.org** neu ffoniwch **0800 328 0006**

CARTREF NEWYDD I WASANAETH Y DDINAS

Agorwyd canolfan newydd i wasanaeth dydd iechyd meddwl y cyngor yn swyddogol fan Faer y llynedd, y Cynghorydd Herbie Thomas.

Gydag ef, roedd yr Arweinydd y Cynghorydd Debbie Wilcox, a'r Cynghorydd Paul Cockeram, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion a Chymunedau.

Mae gan y ganolfan a adnewyddwyd ym Mrynglas gyfleusterau newydd gan gynnwys stiwdio gelf, ystafell ymlacio, ystafell TG, cegin a gardd gymunedol.

Louise Inker, AC Jayne Bryant, arweinydd Debbie Wilcox a'r aelod cabinet, Paul Cockeram

Mae gerddi helaeth ar y safle sy'n ddelfrydol ar gyfer elusen o Gasnewydd sydd hefyd wedi adleoli i'r safle.

Bydd Growing Space yn gweithio'n agos gyda phobl sy'n defnyddio'r ganolfan, gan ddarparu cymwysterau yn ogystal â phrofiad ymarferol ym maes TG a garddio.

Dywedodd y Cynghorydd Cockeram: "M*ae'r cyngor yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'r rheini sydd ag anghenion cymwys. Mae'n bleser gennyf ein bod wedi gallu cynnig y gwasanaethau arbenigol hyn mewn adeilad a adnewyddwyd gyda chyfleusterau gwell.*

"Rydym yn cynnig cyfleoedd a fydd yn helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd er mwyn iddynt allu byw bywydau annibynnol ac iach."

YSBRYDOLI POBL IFANC

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn arwain ar brosiect mawr sy'n targedu bron i 4,000 o bobl ifanc sydd mewn perygl o gefnu ar addysg yn ne-ddwyrain Cymru.

Cyhoeddwyd buddsoddiad o £9.2 miliwn, gan gynnwys £4.2 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ar gyfer Inspire2Achieve gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Casnewydd yn gweithio gyda chynghorau eraill, colegau a Gyrfa Cymru i ddarparu'r rhaglen a fydd ar waith ym mhob ysgol uwchradd yn y ddinas.

LLEOEDD MEITHRIN - GWNEWCH GAIS AR-LEIN

Mae gan blant yr hawl i gael lle meithrin rhan amser am ddim ar ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Os bydd eich plentyn yn troi'n dair rhwng 1 Medi ac 31 Rhagfyr 2016, gallant ddechrau addysg feithrin ym mis Ionawr 2017.

Os bydd eich plentyn yn troi'n dair rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2017, gallant ddechrau addysg feithrin ym mis Ebrill 2017.

Mae ceisiadau ar-lein bellach ar agor ar gyfer y dyddiadau hyn a byddant yn cau 30 Medi 2016.

Os bydd eich plentyn yn troi'n dair rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2017, gallant ddechrau addysg feithrin ym mis Medi 2017.

Bydd ceisiadau ar-lein ar gyfer y dyddiadau hyn yn agor ar 9 Ionawr ac yn cau ar 3 Mawrth 2017.

I gael rhagor o wybodaeth am wneud cais am le meithrin y cyngor, ewch i **newport.gov.uk/nurseryplaces**, ffoniwch **01633 656656** neu anfonwch e-bost at yr ysgol.

I gael gwybodaeth am leoedd meithrin yn y sector (preifat) nas cynhelir, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar **0800 3288483**, **family.informationservice@newport.gov.uk** neu ewch i **www.newport.gov.uk/fis**

JORDAN YN BENCAMPWR STREETGAMES

John Inverdale gyda Jordan Nichols

Mae gwirfoddolwr ifanc o Gasnewydd wedi ennill prif wobr am ei waith gyda phobl ifanc yn y ddinas.

Enwyd Jordan Nichols, 18 oed o Somerton, fel gwirfoddolwr y flwyddyn yng nghynhadledd genedlaethol StreetGames a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Warick yn y gwanwyn.

Cafodd ei gydnabod am ei waith gwirfoddoli mewn amrywiaeth o rolau dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn RASCAL, y gymdeithas gymunedol yn Somerton.

Nodwyd bod hunangred a hyder Jordan wedi mynd o nerth i nerth.

"Mae wedi cadeirio fforwm ieuenctid ac nid yw ei ymrwymiad i wirfoddoli yn ei gymuned erioed wedi plygu," nodwyd.

"Mae'n wirfoddolwr blaenllaw ac yn effeithiol iawn wrth ymgysylltu â phobl ifanc."

Yn y seremoni wobrwyo, cafodd Jordan ei gyfweld gan gyflwynydd chwaraeon y BBC John Inverdale a siaradodd yn hyderus am yr hyn y mae yn ei wneud a sut y mae gwirfoddoli wedi'i helpu i fod yn berson gwell.

Diolchodd Jordan i'r sawl a fu'n gefn iddo dros y blynyddoedd, yn arbennig Debbie Clark a'r tîm o wirfoddolwyr yn Rascal; Ben Adams o Gymunedau yn Gyntaf ynghyd â Steve Welsher yn StreetGames a Leigh Williams o Gasnewydd Fyw.

Dywedodd Ben Adams, cydlynydd iechyd ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yng nghlwstwr y dwyrain:

"Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at gynnydd a datblygiad Jordan, yn arbennig y tîm Cymunedau yn Gyntaf.

"Rydym yn falch iawn o gyflawniadau Jordan a hoffwn ei longyfarch ar dderbyn y wobr haeddiannol hon."

Lansiwyd StreetGames yn 2007 er mwyn newid bywydau, newid cymunedau a newid chwaraeon. Heddiw, mae StreetGames yn helpu mwy na 600 o sefydliadau cymunedol ledled y DU ac yn mynd â chwaraeon at garreg drws cymunedau difreintiedig.

WI-FI AM DDIM LEDLED CASNEWYDD

Mae Cwmwl Cymunedol Casnewydd yn cynnig Wi-Fi am ddim mewn lleoliadau ledled y ddinas.

Gallwch fewngofnodi mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol neu ganolfannau dysgu, Theatr Glan yr Afon, Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd a chanolfannau hamdden eraill, Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, neuadd y dref Caerllion, Marchnad Casnewydd, Canolfan Gamlas Fourteen Locks, Malpas Court, Beechwood House, pafiliwn Parc Belle Vue, a llawer mwy - cadwch olwg am y logo!

NEWIDIADAU I'CH GWASANAETH AILGYLCHU

Mae ailgylchu yn dal i fod yn brif flaenoriaeth i Gyngor Dinas Casnewydd, ac mae Wastesavers, yr elusen ailgylchu sy'n gyfrifol am gasglu nwyddau y gellir eu hailgylchu, yn cyflwyno rhai newidiadau i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon.

Caiff taflenni yn egluro'r system newydd eu dosbarthu i gartrefi ledled Casnewydd dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, nid oes angen i'r preswylwyr boeni am y newid nes eu bod yn cael y taflenni a gaiff eu dosbarthu bythefnos ymlaen llaw.

Un o'r newidiadau mwyaf yw y bydd casgliadau cardbord yn wythnosol ynghyd â chartonau sudd a diod a gall eitemau gwydr fynd yn eich bocs gwyrdd.

Caiff bagiau plastig hefyd eu gwaredu'n raddol a bydd sach goch yn eu disodli ar gyfer ailgylchu plastic, tuniau a chaniau.

Bydd papur, cerdyn ysgafn ac eitemau trydanol sydd wedi torri yn mynd i mewn i'r bocs glas.

Gall cartrefi sydd â llawer o ailgylchu archebu cynwysyddion ychwanegol os bydd angen.

Anogir preswylwyr i barhau i ailgylchu yn ôl yr arfer a bydd ond yn newid pan fyddant yn cael y sach goch newydd.

Ewch i **www.newport.gov.uk/recycling**
neu **www.wastesavers.co.uk**

AILGYLCHWCH EICH GWASTRAFF BWYD

Mae'r tymor barbiciw wedi cyrraedd, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ailgylchu eich holl wastraff bwyd barbiciw.

Anogir trigolion Casnewydd i sicrhau eu bod yn rhoi eu gwastraff bwyd yn eu cadi ailgylchu brown, gan ddefnyddio'r bagiau bwyd a ddarperir, nid i mewn i'r biniau olwyn. Nid yn unig y bydd hwn yn lleihau'r gwastraff a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi, ond bydd hefyd yn atal y biniau rhag arogli'n wael - yn enwedig ym misoedd yr haf.

Mae bwyd gwastraff fel croen ffrwythau a llysiau, esgyrn a chalonnau yn cyfrif am filoedd o dunelli o wastraff bob wythnos yng Nghasnewydd ar hyn o bryd. Drwy roi'r bwyd yn y cadi bwyd brown, mae'n sicrhau y caiff y bwyd gwastraff ei droi'n gompost amaethyddol o ansawdd uchel a'i ailddefnyddio yn hytrach na mynd yn syth i'r safle tirlenwi.

I gael mwy o wybodaeth am ailgylchu yng Nghasnewydd ac i archebu cadi newydd a biniau gwastraff bwyd, ewch i **www.newport.gov.uk/recycling**

DIGWYDDIADAU

THEATR DOLMAN
www.dolmantheatre.co.uk

8 – 10 Gorffennaf
Lights, Camera, Dance
Sioe diwedd blwyddyn
Ysgol Ddawns Sharon Fitzgerald

14 Gorffennaf:
Noson a Sesiwn Ganu'r 1940au
Cymdeithas Gerddorol STC

THEATR GLAN YR AFON
www.newportliveco.uk/riverfront

25 Gorffennaf – 6 Awst:
Ysgol Ddawns Ballet Cymru
i blant 10 oed a hŷn.
Lleoedd yn brin -
ffoniwch **07778 411338**
neu anfonwch e-bost at
amydoughty@welshballet.co.uk

16 a 17 Gorffennaf:
Y Sblash Mawr
penwythnos theatr stryd
a digwyddiadau awyr agored.
Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf yn **newportlive.co.uk/events**

2 August: å
Clwb Ffilm Dydd Mawrth
bob wythnos ym mis Awst
Rhwng 6 a 12 oed
Pris o £15 yn cynnwys tocyn i'r sinema, cinio a gweithgaredd yn y prynhawn

22 -26 August:
Hatch Youth Theatre Summer School
i blant rhwng 6 a 12 oed a rhwng 13 ac18 oed

TŶ TREDEGAR
www.nationaltrust.org.uk/tredegar-house/
6 a 20 Gorffennaf, 3 Awst:
Cadwraeth ar waith
o hanner dydd i 3pm

Bob dydd o 4 Gorffennaf:
Her llwybr
Archwiliwch yr ardal yr haf hwn

PONT GLUDO CASNEWYDD
Ar agor o ddydd Mercher i ddydd Sul
o 10am i 5pm ac ar
Dydd Llun Gŵyl y Banc